**Y Pwyllgor Archwilio AC-08-02(p5)**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 21 Tachwedd 2002 |
| **Amser:** | 13:30 |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 1, Cynulliad Cenedlaethol Cymru |

**Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru: Rheoli Ystâd y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru**

**Ymateb Cabinet y Cynulliad Cenedlaethol i argymhellion y Pwyllgor Archwilio, yn dilyn cyflwyno'u hadroddiad ar 1 Awst 2000.**

Mae Cabinet y Cynulliad Cenedlaethol yn ddiolchgar am yr adroddiad. Yr ydym yn croesawu'r canfyddiadau ac yn cynnig yr ymateb canlynol i'r pedwar argymhelliad ar ddeg yn yr Adroddiad.

**Argymhelliad i.**

**Bod Adran GIG Cymru'n monitro'r gwaith o gymhwyso fframwaith strategol ystâdau cenedlaethol ar lefel leol a'i addasu fel bo angen i adlewyrchu newidiadau ym mhatrwm datblygiadau gwasanaeth.**

*Bwriad y Fframwaith Strategol Ystâdau Cenedlaethol yw creu'r strwythurau, y systemau a'r diwylliant er mwyn medru datblygu a gweithredu cynlluniau iechyd real. Mae'r fframwaith yn nodi'n glir y gweithgareddau ar gyfer y blynyddoedd nesaf, ac mae'n cynnwys gweithrediadau allweddol. Bydd y cynnydd yn erbyn y rhain yn cael ei fonitro drwy gyfuniad o Adolygiadau Ystâdau Strategol Blynyddol ac adolygiadau'r Cyfarwyddwr o'r P rif Weithredwyr.*

*Serch hynny, nid cynllun datblygu mo'r Fframwaith Strategol Ystâdau Cenedlaethol ac fel y cyfryw ni fwriedir iddo gael ei newid dros amser. Ar ôl yr ychydig flynyddoedd nesaf bydd Adran GIG Cymru'n asesu pa ddatblygiadau pellach. os o gwbl, sydd eu hangen ar y fframwaith., i*

**Argymhelliad ii.**

**Bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn sicrhau bod y targedau diweddaraf a gyhoeddwyd ar**

**gyflwr ystâdau ar gyfer y GIG yng Nghymru yn ddigon uchelgeisiol ond yn rhai y gall ymddiriedolaethau eu cyflawni.**

*Cytunwyd. Wedi dysgu o brofiad blaenorol gyda'r targedau a osodwyd gan y Swyddfa Gymreig, lluniwyd y targedau perfformiad newydd (a roddwyd i'r Ymddiriedolaethau drwy WHC 50/2002) drwy gadw'r amcan hwn mewn cof. Caiff y cynnydd yn erbyn y targedau hyn ei fonitro'n agos drwy'r System Rheoli Perfformiad Ystâdau a Chyfleusterau a'i adolygu yng nghyfarfod Adolygiad Strategol Blynyddol yr Ystâdau rhwng yr Ymddiriedolaeth ac Adran GIG y Cynulliad.*

**Argymhelliad iii**

**Bod prif weithredwyr ymddiriedolaethau'n sicrhau eu bod yn gweithredu gyda chefnogaeth broffesiynol ddigonol wrth reoli eu hystâdau, gan greu cydbwysedd priodol rhwng angen a'r hyn y gellir ei fforddio.**

*Cytunwyd. Mae Adran GIG Cymru yn cydnabod yr anawsterau sy'n wynebu'r GIG wrth geisio denu a chadw staff cymorth proffesiynol sydd â chymwysterau addas o fewn adnoddau ariannol cyfyngedig. Serch hynny, mae'r Fframwaith Ystâdau Strategol Cenedlaethol yn pwysleisio pwysigrwydd cysylltiad priodol a chyfrifol y cyfarwyddwyr Bwrdd â'r broses o wneud penderfyniadau.*

*Er mwyn helpu'r GIG, bydd Adran GIG Cymru yn cychwyn adolygiad wedi'i anelu at ganfod y ffordd gorau i drefnu'r ystâd a'r cyfleusterau yn lleol ac yn genedlaethol er mwyn bodloni anghenion y Gwasanaeth.*

*Yn ogystal, ac unwaith eto ar lefel genedlaethol, mae Ystâdau Iechyd Cymru yn darparu gwasanaethau technegol a phroffesiynol arbenigol allweddol ar gyfer y GIG yng Nghymru er mwyn rhoi cymorth i Brif Weithredwyr yr ymddiriedolaethau ollwng eu cyfrifoldebau dros yr ystâdau.*

*Cydnabyddir hefyd bod yr Ymddiriedolaethau'n cyflogi, ac y dylent gyflogi, , gweithwyr proffesiynol i reoli'u hystâdau. Yn ychwanegol at hyndefnyddir Ystâdau Iechyd Cymru a chyflogir g ymgynghorwyr preifat.*

**Argymhelliad iv.**

**Bod yr adolygiad o swyddogaeth Ystâdau Iechyd Cymru yn cael ei gynnal mewn ymgynghoriad llawn ag ymddiriedolaethau a bod y trefniadau gwasanaeth fydd yn deillio ohono ar gyfer darparu**

**arbenigedd craidd, canolog ar faterion ystâd i GIG Cymru yn rhoi gwerth da am arian i'r Cynulliad a'r cyrff GIG sy'n meddu ar eiddo.**

*Cytunwyd. Mae Ystâdau Iechyd Cymru eisoes wedi gweithredu drwy gwblhau archwiliad, gan adolygu'u rôl gyda'r Ymddiriedolaethau a chyda Llywodraeth Cynulliad Cymru. Bydd hyn yn cael ei adlewyrchu mewn Cytundeb Lefel Gwasanaeth diwygiedig ar gyfer y flwyddyn nesaf. Disgwylir y bydd swyddogaethau Ystâdau Iechyd Cymru hefyd yn cael eu cynnwys yn yr adolygiad mwy hirdymor a gynlluniwyd ar gyfer gwasanaethau sy'n cael eu rhannu.*

**Argymhelliad v.**

**Bod ymddiriedolaethau yn sicrhau bod cofnodion perchnogaeth a thenantiaeth yn cael eu rheoli'n weithredol yn unol â'r cyfarwyddyd perthnasol fel rhan o adolygiadau'r Cyfarwyddwr GIG o berfformiad prif weithredwyr.**

*Cytunwyd. Ceir manylion am y gofyniad i reoli materion perchentyaeth eiddo a pherthynas landlord/ tenant yn gywir yn Estatecode (y canllawiau strategol a ddefnyddir yn y GIG). Bydd pwysigrwydd y materion hyn i'r ymddiriedolaethau yn cael ei ategu gan Adran GIG Cymru drwy gyhoeddi Cylchlythyr Iechyd Cymru.*

*Bydd y broses yn cael ei fonitro drwy gyfarfod o Adolygiad Strategol Blynyddol yr Ystâdau a gwaith parhaus Ystâdau Iechyd Cymru wrth gynnalachadw'r Portffolio Tir ac Eiddo ar gyfer y GIG yng Nghymru. Bydd y ddwy broses hon yn caniatáu i'r ymddiriedolaethau ddarparu datganiad am eu sefyllfa i'r Cyfarwyddwr er mwyn rhoi gwybodaeth i gyfarfod adolygu perfformiad y Prif Weithredwr.*

**Argymhelliad vi.**

**Bod y broses ymgeisio am nawdd cyfalaf yn cael ei symleiddio er mwyn cyflymu'r gwaith o gymeradwyo prosiectau iechyd a diogelwch sydd â blaenoriaeth uchel iddynt i ganiatáu i'r gwaith ddechrau'n gynt, yn amodol ar sicrwydd bod yr ateb arfaethedig yn rhoi gwerth da am arian.**

*Mae Adran GIG Cymru yn cynllunio adolygiad trylwyr o'r mecanweithiau cynllunio cyfalaf gan gynnwys adolygiad o'r broses blaenoriaethu cyfalaf. Bydd hyn yn rhoi mwy o bwysau i'r angen i sicrhau iechyd a diogelwch yn ogystal â chydymffurfiaeth statudol. Serch hynny mae'n bwysig bod pob prosiect yn destun proses i sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio orau y gellir a bod modd cyflawni prosiectau arfaethedig o fewn y gost a'r amser a nodwyd.*

**Argymhelliad vii.**

**Bod pob corff GIG yng Nghymru sy’n meddu ar eiddo yn rheoli'n weithredol y peryglon sy’n gysylltiedig â iechyd a diogelwch mewn perthynas ag eiddo y maent yn berchen arno neu sydd yn eu meddiant er lles cleifion, ymwelwyr a staff;**

*Cytunwyd. Bydd y system rheoli perfformiad newydd a'r trefniadau monitro yn sicrhau mwy o eglurder mewn perthynas â'r ffyrdd y mae cyrff sy'n meddu ar eiddo yn rheoli'u risgiau iechyd a diogelwch*

*Mae'n ofynnol i bob Ymddiriedolaeth yng Nghymru reoli'n weithredol y risgiau iechyd a diogelwch. O ran yr ystâd, caiff y broses ei ffurfioli drwy nifer o Safonau Cronfa Risg Cymru allweddol. Mae dadansoddi risg hefydyn elfen orfodol o Strategaethau Ystâdau Ymddiriedolaeth ac achosion busnes.*

*Yn ogystal, fel rhan o'r ymateb i ail adroddiad Swyddfa'r Archwilydd Cenedlaethol ar Adnewyddu a Gwaredu Eiddo a Ddelir gan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru, bydd Adran GIG Cymru hefyd yn ystyried mesurau i sicrhau mwy o eglurder am y defnydd a wneir gan yr Ymddiriedolaethau o gyfalaf dewisiol i sicrhau bod digon o bwys yn cael ei roi ar risgiau Iechyd a Diogelwch.*

**Argymhelliad viii.**

**Bod Adran GIG Cymru yn gweithredu’n gynnar i sefydlu’n fwy cywir y gost bosib o unioni'r ôl-groniad yn y gwaith cynnal a chadw a’r rhesymau dros y cynnydd gofidus yn yr adroddiadau am yr ôl-groniad yn y gwaith cynnal a chadw**

*Cytunwyd. Bydd cyflwyno System Rheoli Perfformiad Ystâdau a Chyfleusterau yn Ebrill 2002 yn galluogi gwell dealltwriaeth o'r ôl-groniad yn y gwaith cynnalachadw. Mae Adran GIG Cymru hefyd wedi canfod anghysonderau wrth fesur yr ôl-groniad yn y gwaith cynnalachadw drwy'r GIG yng Nghymru, ac maent wedi comisiynu Ystâdau Iechyd Cymru i drefnu cyfres o seminarau a gweithdai hyfforddi er mwyn gwella perfformiad yn y maes hwn.*

*Mae Adran GIG Cymru hefyd yn ystyried cyflwyno proses archwilio allanol o asesiadau'r Ymddiriedolaeth o'r ôl-groniad yn y gwaith cynnalachadw.*

**Argymhelliad ix.**

**Bod Adran GIG Cymru yn ystyried ffyrdd o ddarparu nawdd ar sail tair blynedd yn hytrach na thrwy ddyrannu blynyddol ar gyfer mynd i’r afael â phrif broblemau ôl-groniad yn y gwaith cynnal a chadw o fewn cynllun strategol y cytunwyd arno ar lefel genedlaethol a lleol.**

*O dan y Gorchmynion Sefydlog mae'r Cynulliad yn bwrw pleidlais ar ei Gyllideb yn flynyddol, ac felly*

*nid yw'n bosibl i ni ddyrannu cyllidebau ymlaen. Mae cyllidebau dangosol yn cael eu pennu ar gyfer y dyfodol ac mae'r Cynulliad yn cyhoeddi rhagdybiaethau cynllunio adnoddau ymalen llaw i bob un sydd ynghlwm wrth y broses o gynllunio'r gyllideb.*

**Argymhelliad x**

**Bod rheolwyr y GIG ar lefel yr ymddiriedolaeth yn ymdrechu i leihau'n sylweddol y gyfran o'r ystâd sy'n is na'r safon dderbyniol o ran bod yn addas i'r pwrpas;.**

*Mae Ymddiriedolaethau yn ymwybodol o'r cyfrifoldebau mewn perthynas â chynnalachadw ystad, sy'n addas at ei bwrpas ac yn ddiogel. Serch hynny, oherwydd gofynion cystadleuol am refeniw ac adnoddau cyfalaf, mae'n rhaid i Ymddiriedolaethau wneud penderfyniadau anodd a blaenoriaethu'r gwaith maent yn ei wneud.*

*Er mwyn sicrhau bod y blaenoriaethau'n cael eu dewis yn dda, bydd angen y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch addasrwydd swyddogaethol Ystâdau'r Ymddiriedolaeth.*

*Mae angen i'r datblygiad o strategaethau ystâdau cadarn roi ystyriaeth i'r holl ffactorau sy'n effeithio ar eu gallu i gyflawni ystâd sy'n addas at y pwrpas.*

**Argymhelliad xi.**

**Bod pob ymddiriedolaeth yn ymgynghori â phobl anabl i sicrhau bod eu cynlluniau i gydymffurfio â Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd yn briodol.**

*Cytunwyd. Mae Adran GIG Cymru wedi rhoi canllawiau i'r Ymddiriedolaethau gan nodi'r broses sydd angen ei datblygu ar lefel leol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd. Mae'r canllawiau hyn yn pwysleisio pwysigrwydd ymgynghori a gweithio gyda grwpiau sy'n cynrychioli pobl anabl drwy'r camau cynllunio a gweithredu.*

*Mae Ymddiriedolaethau eisoes yn ymwybodol o hyn a phwysigrwydd y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail*

*Anabledd. Mae gan y rhan fwyaf ohonynt, os nad pob un, fecanweithiau yn eu lle ar gyfer ymgynghori ar gynlluniau cyfalaf neu waith adnewyddu o bwys*

*Bydd cyfres o seminarau'n cael eu trefnu ar gyfer yr Ymddiriedolaethau gan Ystâdau Iechyd Cymru er mwyn ail-ddatgan pwysigrwydd y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd a chaniatáu fforwm ar gyfer cyfnewid gwybodaeth ac arfer da.*

**Argymhelliad xii.**

**Bod Adran GIG Cymru yn gweithredu i sicrhau bod arolygon llawn ar y defnydd o le yn cael eu cwblhau ymhob ymddiriedolaeth erbyn mis Rhagfyr 2003.**

*Cytunwyd. Mae'r angen am arolygon llawn ar y defnydd o le yn cael ei bwysleisio ym mhob cyfarfod adolygu strategaeth ystâdau (rhwng Ystâdau Iechyd Cymru a'r Ymddiriedolaethau) ac mae'n eitem sefydlog ar yr agenda ar gyfer y Cyfarfod Adolygiad Strategol Blynyddol (rhwng yr Adran Iechyd a'r Ymddiriedolaethau). Eisoes gofynnwyd i'r Ymddiriedolaethau i ailgyflwyno'u strategaethau ystâdau erbyn Rhagfyr 2002 a bydd yr arolygon ar y defnydd o le yn rhan o'r dogfennau hyn.*

**Argymhelliad xiii.**

**Bod strategaethau ystâd pob ymddiriedolaeth yn mynd i'r afael â phroblemau defnydd o le trwy gynnal asesiad cynhwysfawr a manwl o lety sy'n cael ei danddefnyddio a llety sy'n rhy lawn, ac yn cyflwyno cynigion ymarferol i wella'r sefyllfa. Byddai hyn yn cynnwys gwneud y defnydd mwyaf effeithlon o'r holl le sydd ar gael.**

*Cytunwyd. Mae angen i ddatblygiad o strategaeth ystâdau gadarn roi ystyriaeth i'r holl ffactorau sy'n effeithio ar gyflwyno gwasanaethau effeithiol ac effeithlon. Mae Adran GIG Cymru wedi gosod targedau heriol ar gyfer defnyddio lle mewn ysbytai a bydd strategaethau ystâdau Ymddiriedolaeth leol yn cael eu harchwilio i sicrhau'u bod yn adlewyrchu'r targedau cenedlaethol.*

**Argymhelliad xiv.**

**Bod prif weithredwyr ymddiriedolaethau'n sicrhau y ceir gweithredu cynnar er mwyn rhesymoli**

**eu hystâdau a lleihau’r lleoedd sy’n wag ac yn cael eu tanddefnyddio. Dylai hyn arwain at arbedion ariannol o ganlyniad i gynnal a chadw a gwaredu’r safleoedd hyn ac felly ryddhau arian ar gyfer buddsoddiad newydd i wella ystâdau gweithredol. Edrychwn tuag at Bennaeth Adran GIG Cymru i bwyso ar brif weithredwyr i wneud hyn yn gost effeithiol a chyda’r brys priodol;**

*Mae'n ofynnol i bob strategaeth ystâdau gynnwys cynlluniau gwaredu a rhesymoli a bydd y System Rheoli Perfformiad Ystâdau a Chyfleusterau yn gymorth i adnabod yr Ymddiriedolaethau hynny sydd â chyfleoedd rhesymoli.*

*Bydd monitro'r gweithgaredd rhesymoli yn rhan o'r Cyfarfod Adolygiad Strategol Blynyddol rhwng yr Adran Iechyd a'r Ymddiriedolaethau.*

**Argymhelliad xv.**

**Bod gwaith pellach yn cael ei wneud i ddarparu gwybodaeth ddibynadwy ar fanteision y gellir eu sicrhau gan y GIG yng Nghymru trwy fuddsoddiad wedi’i dargedu mewn mesurau effeithlonrwydd ynni.**

*Cytunwyd. Mae Ystâdau Iechyd Cymru wedi cydnabod bod nifer o faterion sydd angen eu gweithredu mewn perthynas ag ynni a'r ystâdau iechyd yng Nghymru.*

*Er mwyn edrych ar y rhain mae Ystâdau Iechyd Cymru ar hyn o bryd ynghlwm wrth brosiect peilot gyda'r Ymddiriedolaeth Carbon ac Ymddiriedolaeth Gofal Iechyd GIG Gwent er mwyn adnabod cyfleoedd ar gyfer mesurau effeithlonrwydd ynni.*

*Bydd y prosiect yn archwilio'r opsiynau ar gyfer strategaeth i Gymru gyfan, yn nodi meysydd allweddol ar gyfer gwneud arbedion, yn cynnwys argymhellion ar gyfer gwneud gwelliannau, yn archwilio'r goblygiadau o ran adnoddau ac arian, yn nodi'r rhwystrau iweithredu ac yn creu achos ar gyfer gwneud newidiadau.*

*Ar hyn o bryd mae'r prosiect yn symud i'r ail gam gyda'r Ymddiriedolaeth Carbon yn penodi ymgynghorwyr a bydd cynnig ar gyfer cyfraniad y GIG yn cael ei gyflwyno maes o law.*

**Argymhelliad xvi.**

**Bod angen gosod targedau defnyddio ynni realistig ond heriol ar gyfer pob ymddiriedolaeth yn unigol yn erbyn cefndir y targed cyffredinol a osodwyd gan y llywodraeth.**

*Bydd y prosiect yn archwilio targedau defnyddio ynni unigol ar gyfer yr Ymddiriedolaethau a bydd yn edrych at normaleiddio targedau i roi ystyriaeth i leoliad ysbytai, mathau o ysbytai a'u swyddogaeth. Yn ogystal ag edrych ar dargedau ynni'r ymddiriedolaeth, bydd y prosiect hefyd yn edrych ar y posibiliad o gyflwyno dangosyddion perfformiad sydd wedi'u cysylltu'n uniongyrchol â materion sy'n ymwneud â chleifion.*

*Yn ogystal â phethau i'w cyflawni gan y prosiect peilot, mae'r Polisi Amgylcheddol Ystâdau ar gyfer y GIG yng Nghymru, sydd ar hyn o bryd o dan ymgynghoriad gyda'r Cynulliad, yn galw ar yr Ymddiriedolaethau i gyflwyno cynllun gweithredu yn flynyddol er mwyn asesu cynnydd yr ymddiriedolaethau tuag at dargedau ynni.*

*Bydd Ystâdau Iechyd Cymru yn adolygu'r cynlluniau hyn a defnyddir y cyfle i newid y targedau'n unol â hyn.*

**Argymhelliad xvii.**

**Bod y Cynulliad yn ystyried manteision defnyddio gwres gwastraff o ffynonellau eraill ac yn darparu cyfarwyddyd i ymddiriedolaethau ar integreiddio’r defnydd o wres gwastraff graddfa isel**

**o fusnesau lleol mewn unedau gwres a pher cyfunol mewn ysbytai ac adeiladau gofal iechyd newydd.**

*Bydd y cynllun peilot yn archwilio'r cyfleoedd ar gyfer mentrau newydd ym maes cadwraeth ynni, gan gynnwys mentrau cymunedol sy'n defnyddio gwres gwastraff graddfa isel.*

*Bydd ynni adnewyddadwy, unedau gwres a pher cyfunol unigol hefyd yn cael eu hystyried yn yr astudiaeth.*

*Yn ogystal â'r astudiaeth beilot mae Ystâdau Iechyd Cymru yn adolygu'r unedau gwres a pher cyfunol sydd wedi eu gosod yn ysbytai Cymru, a bydd yn llunio adroddiad ar ei ganfyddiadau.*

*Bydd Ystâdau Iechyd Cymru hefyd yn parhau i gefnogi ymddiriedolaethau wrth gyflwyno gosodiadau gwres a pher cyfunol o ansawdd da..*